

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Cynllun Gweithredu i gynorthwyo'r Sector Sylfaen Bwyd a Diod
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Tim McHugh
Adran:	Yr Is-adran Fwyd (Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol)
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-Swyddog â Chyfrifoldeb (enw):	David Lloyd-Thomas (Yr Uwch-swyddog â Chyfrifoldeb)
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog â Chyfrifoldeb:	Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Dyddiad dechrau:	Ionawr 2020

CYNNWYS

<u>Adran 1: Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?</u>	3
<u>Adran 7: Casgliad</u>	9
<u>Adran 8: Datganiad</u>	14
Asesiadau Effaith Llawn:	
<u>Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg</u>	15

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, wedi paratoi Cynllun Gweithredu er mwyn mynegi ei hymrwymiad a'i chymorth i'r diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2020-2026.

Diben y Cynllun yw cyflawni'r amcan yn y **Cynllun Gweithredu ar yr Economi**¹, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, i ddatblygu'r Sector Sylfaen Bwyd a Diod er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl a rhoi sylw priodol i'r heriau a'r cyfleoedd i dyfu ac arloesi.

Wrth wneud hynny bydd y Cynllun yn dilyn ymlaen o strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bwyd a diod, '**Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru**', yn ogystal â'r cynllun gweithredu sy'n bodoli yn barod, '**Tuag at Dwf Cynaliadwy**'², pan fyddant yn dod i ben ddiwedd 2019.

Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth i'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, ac elfennau sydd â chysylltiad agos â'r sector hwnnw, megis cyfanwerthu a pheycynnu bwyd. Mae ein hymwneud cychwynnol â rhanddeiliaid yn y diwydiant ac ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru wedi dangos eu bod yn ffafrio cael ffocws clir ar y sector hwn er mwyn sicrhau y bydd ein camau gweithredu yn arwain at gyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Fodd bynnag, bydd y Cynllun yn ceisio creu cysylltiadau gwell â'r sector cynhyrchu cynradd ac yn mynd i'r afael â'r angen i gryfhau cadwyni cyflenwi.

Nod ein cymorth fydd annog twf economaidd a safonau gwell trwy ystod o ymyriadau. Bydd y Cynllun yn cynnig parhad o ran y prif darged ar gyfer twf yn Tuag at Dwf Cynaliadwy, ond bydd hefyd yn mynd ar drywydd darlun mwy cyflawn o berfformiad y diwydiant, sy'n seiliedig ar wella gallu busnesau yn y sector i gynhyrchu, bod yn gystadleuol ac arloesi.

Bydd y Cynllun hefyd yn dilyn y newid cyfeiriad o ran polisi, a eglurir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac a ymgorfforir yn y Contract Economaidd, i ategu'r nodau cenedlaethol sy'n ymwneud â sicrhau twf teg a chynaliadwy. Trwy ein hymyriadau i gynorthwyo'r sector bwyd a diod, bydd y Cynllun yn cyfrannu at nodau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sef gwaith teg, swyddi gwell yn nes adref, datgarboneiddio a gwella lefelau cynhyrchiant trwy fabwysiadu technolegau newydd.

¹Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi

²Tuag at Twf Cynaliadwy - Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020

Mae bwyd a diod yn hollbwysig i ni i gyd, ac o'r herwydd mae'r sector yn berthnasol i ystod eang o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n amrywio o faeth a thlodi bwyd, llafur a sgiliau, i ddatgarboneiddio a gwastraff. Bydd y Cynllun yn egluro sut y bydd ein buddsoddiad cyhoeddus yn dilyn dull o weithredu sy'n golygu bod yn rhaid cael rhywbeth yn ôl am y cyllid a ddyrennir, gyda diben cymdeithasol sy'n sicrhau gwerth ychwanegol ac ehangach.

Ni fwriedir i'r Cynllun hwn fynd i'r afael â'r holl bryderon cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â bwyd, oherwydd bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth i'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod. Fodd bynnag, wrth gydnabod bod y sector bwyd a diod yng Nghymru yn rhan bwysig o'r system fwyd ehangach, bydd y Cynllun yn integreiddio'n well â nodau ehangach ein Strategaeth Genedlaethol.

Bydd y Cynllun yn disgrifio sut y mae ein hymyriadau'n ystyried gwaith trawsadrannol a chysylltiadau â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, y bwriedir iddynt sicrhau newid yn y meysydd hyn. Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys ystod o dargedau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u dewis er mwyn rhoi dealltwriaeth ehangach o gyflwr y diwydiant a pherthynas y sector â'r nodau pellach sy'n ymwneud â llesiant cymdeithasol.

Bydd y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr hirdymor

Cynigir y bydd y Cynllun yn para tan 2026 er mwyn rhoi sylw priodol i'r elfennau a fydd yn gwednewid twf cynaliadwy yn yr **hirdymor**, sef y gallu i gynhyrchu, y gallu i fod yn gystadleuol ac effeithlonrwydd adnoddau. Mae hynny'n cynnwys mabwysiadu'r Galwadau i Weithredu yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi er mwyn paratoi at y dyfodol a bod yn barod ar ei gyfer.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad cyhoeddus uniongyrchol i'r sector. Bydd ymyriadau eraill yn targedu'r ffactorau sy'n sbarduno newid hirdymor, a gaiff eu nodi trwy ein hymwneud â'r diwydiant a rhanddeiliaid. Bydd ein rhaglenni yn cynnwys cymorth i gael gafael ar gyllid masnachol a buddsoddiad preifat, cyrraedd marchnadoedd sy'n flaenoriaeth yn y DU ac yn rhyngwladol, ymchwilio i dueddiadau defnyddwyr a gwybodaeth am ddefnyddwyr, a datblygu brand er mwyn marchnata a hyrwyddo cynnyrch o Gymru.

Mae ein gwaith cychwynnol i gasglu tystiolaeth yn pwysleisio'r angen i fuddsoddi ymhellach ym Mhrosiect Helix a datblygu rhwydwaith Arloesi Bwyd Cymru er mwyn grymuso busnesau ac annog arloesi ac entrepreneuriaeth. Bydd ein canolfannau bwyd ledled Cymru yn meithrin busnesau newydd, yn mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth, yn cynorthwyo i ddatblygu cynnyrch newydd ac yn sbarduno gwaith ymchwil a datblygu.

Mae'r conglfeini yn eu lle i hyrwyddo cynnyrch o Gymru fel cynnyrch cynaliadwy o safon. Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr yn y DU yn ystyried mai prif nodweddion y cynnyrch a geir gan frandiau amlycaf Cymru yw ei fod yn naturiol, ei fod o ansawdd campus a'i fod yn blasu'n wych. Mae gan y sector y potensial i godi proffil Cymru gartref a thramor fel sector sy'n gwneud cyfraniad pwysig i frand Cymru, fel elfen allweddol o'r profiad a gaiff ymwelwyr yn rhan o'r hyn a gynigir i dwristiaid, ac fel sector sy'n hyrwyddo Cymru trwy allforion a buddsoddiad uniongyrchol o dramor.

Bydd y Cynllun yn cadw at yr Egwyddor o Gynaliadwyedd trwy hybu'r cryfderau hyn er mwyn cynyddu lefelau cyfoeth a llesiant yn yr hirdymor, a phennu'r cyfeiriad y dylid mynd iddo yn y cyfnod wedi Brexit.

Atal

Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau i **atal** y problemau hirsefydlog sy'n wynebu'r sector, megis y gallu i gael gafael ar weithwyr sydd â'r sgiliau iawn. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod oddeutu un rhan o dair (32%) o fusnesau bwyd a diod Cymru wedi sôn am fylchau o ran sgiliau, yn enwedig ym maes gwyddor bwyd, peirianeg a sgiliau masnachol. Mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd angen 6,800 yn fwy o weithwyr erbyn 2025³.

Bydd rhaglenni megis yr Adduned Sgiliau a Gyrfaoedd Blasus yn ceisio codi proffil y diwydiant a chanfyddiad pobl ohono ac yn ceisio annog camau i ddatblygu mwy o hyfforddiant ac addysg a gaiff eu harwain gan y diwydiant. Bydd ein rhaglenni yn y Cymoedd yn ceisio creu cyfleoedd a lleihau anghydraddoldeb rhanbarthol. Trwy weithio gyda thri chwmni bwyd yn y Cymoedd, rydym yn helpu i ddatblygu sgiliau technegol y sawl sy'n gweithio eisoes yn y sector, trwy Arloesi Bwyd Cymru, ac yn helpu i greu swyddi newydd dan hyfforddiant trwy'r Academi Sgiliau Genedlaethol.

Bydd mentrau sy'n ceisio cynyddu cydnherthed busnesau, megis *'Fit for Market: London Penetration'* a *'Overcoming Barriers to Exports'*, yn helpu i atal yr heriau mwy uniongyrchol a ddaw yn sgil gadael yr UE. Mae Brexit yn berthnasol iawn i'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod oherwydd rhwystrau posibl o safbwynt tariffau a dim tariffau, rheolau ynghylch tarddiad cynnyrch a'r effaith ar logisteg 'yr union bryd'. Caiff Cronfa Bontio'r UE ei defnyddio i weithredu ystod o raglenni a gwaith ymchwil y bwriedir iddynt liniaru effeithiau Brexit, megis creu Gwerthoedd Brand Cynaliadwy a dadansoddi cyfleoedd o ran Disodli Mewnforion.

³ Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod Cymru – Gofynion Llafur yn y Dyfodol 2017-2025, Brookdale Consulting 2017.

Integreiddio

Mae'r Cynllun yn cydnabod yr angen am **integreiddio**, trwy gynnwys camau gweithredu sy'n gofyn am weithio ar draws Llywodraeth Cymru ac sy'n cysylltu â nodau grwpiau sydd â budd yn y diwydiant bwyd a diod, er mwyn cyflawni agenda sy'n mynd y tu hwnt i ffocws cyfyng ar sicrhau twf ym maes gweithgynhyrchu yn unig. Caiff y Cynllun ei lunio ar sail tair thema sy'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer y sector bwyd a diod, y bwriedir iddynt gyflawni chwech o'r Amcanion Llesiant yn y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb (gweler Tabl 1 isod). Caiff ystod o dargedau a chyfres o ddangosyddion perfformiad a ddatblygir eu defnyddio i ddarparu darlun mwy cyflawn o gyflwr y diwydiant a mesur llwyddiant mewn modd mwy cytbwys.

Tabl 1: Cyswllt â'r Amcanion Llesiant yn y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb.

Y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb		Cynllun Gweithredu'r Sector Sylfaen Bwyd a Diod		
Thema	Amcan Llesiant	Thema	Targed	Dangosydd Perfformiad
Ffyniannus a Diogel Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl, gan gynnig cyfleoedd i bawb a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. O wneud hynny, gall pobl wireddu eu huchelgais a gwella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy. Un o rolau hanfodol y llywodraeth yw chwalu'r rhwystrau y mae nifer yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i swydd, a chreu'r amgylchedd iawn i fusnesau dyfu a ffynnu.	Amcan 1: Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant	Datblygu ein busnesau	<ul style="list-style-type: none"> Bob blwyddyn bydd gwerth y Sector Bwyd a Diod o ran trosiant yn tyfu i gyd-fynd â'r newid yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a 2% ychwanegol. 	<ul style="list-style-type: none"> Gwerth o ran trosiant Cyfanswm nifer y busnesau
	Amcan 2: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg	Datblygu ein busnesau	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y cwmnïau bwyd a diod sydd wedi ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr erbyn 2026. 	<ul style="list-style-type: none"> Lefelau hyder busnesau bwyd Cyfradd goroesi busnesau Cyfran y gweithwyr sy'n cael y Cyflog Byw Gwirioneddol neu gyflog uwch na hynny
	Amcan 3: Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd	Bod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y cwmnïau bwyd a diod sy'n ymrwymo i Ymrwymiad Courtauld erbyn 2026. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y busnesau yng Nghymru sy'n ymrwymo i Ymrwymiad Courtauld erbyn 2026 Y graddau y mae'r sector yn lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr
Uchelgeisiol ac yn Dysgu Ein nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod. Os ydym am weld Cymru yn ffynnu, mae angen pobl greadigol, sy'n fedrus iawn ac yn gallu addasu, felly bydd ein haddysg o'r oedran cynharaf un yn sylfaen i oes o ddysgu a chyflawni.	Amcan 8: Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw	Bod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y cwmnïau bwyd a diod sydd wedi llofnodi'r Adduned Sgiliau erbyn 2026. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y busnesau sy'n ymrwymo i'r Adduned Sgiliau Cyfanswm niferoedd y gweithwyr
	Amcan 9: Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid	Datblygu ein busnesau	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithir yn y diwydiant bwyd yn tyfu bob blwyddyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu Y Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithir
Unedig a Chysylltiedig Ein nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, a'n lle yn y byd. Rydym yn adeiladu'r cysylltiadau hanfodol sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd, i'r economi dyfu, ac inni ddod yn genedl fwyfwy hyderus ac allblyg.	Amcan 12: Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd	Hyrwyddo Cymru, y Genedl Fwyd	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gan 500 o fusnesau yn y sector bwyd a diod a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig achrediad priodol at ddibenion eu busnes erbyn 2026. Bydd gan 95% o fusnesau yn y sector bwyd a diod sgôr hylendid bwyd o 4 neu 5 erbyn 2026. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y cynnyrch sy'n ennill Gwobrau 'Great Taste'. Nifer a/neu werth prosiectau Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor yng Nghymru. Gwerth allforion. Nifer y busnesau sy'n ennill achrediaid a gaiff eu cydnabod gan y diwydiant. Safonau Busnesau Bwyd a ddangosir gan sgôr o 4 neu 5 dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

Cydweithio

Mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiadau agos â'r diwydiant bwyd a diod, a bydd ein **cydweithio** â **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru** wrth ddatblygu a chyflawni'r Cynllun yn sicrhau bod y Cynllun yn berthnasol ac wedi'i dargedu'n briodol.

Cafodd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ei sefydlu dan y cynllun cyfredol, **Tuag at Dwf Cynaliadwy**, i fod yn llais sy'n cynrychioli'r diwydiant yng Nghymru. Cenhadaeth y Bwrdd yw gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant a llywodraeth er mwyn helpu i ehangu a hyrwyddo'r sector bwyd a diod yng Nghymru ac ychwanegu gwerth gwirioneddol ato.

Rhannodd y Bwrdd berchnogaeth dros Tuag at Dwf Cynaliadwy, ac mae ei waith wedi bod yn canolbwyntio ar dair thema, sef 'Busnes a Buddsoddi', 'Pobl a Sgiliau' a 'Cwsmeriaid a Marchnadoedd'.

Mae'r Bwrdd wedi mynd ati i gyflawni'r mentrau hynny trwy gyfres o ddigwyddiadau a thrwy ymgysylltu â diwydiant, er mwyn datblygu gallu busnesau i frandio a marchnata, gwella cysylltiadau busnesau â buddsoddiad preifat, a chynhyrchu'r cynllun *'Transforming Skills in the Welsh Food & Drink Industry'* er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran llafur.

Mae gwaith y Bwrdd wedi cyfrannu'n llawn at ddatblygu'r Cynllun hwn, a byddwn yn parhau i gydweithio â'n partner allweddol yn y diwydiant wrth gyflawni ein camau gweithredu drwy gydol oes y Cynllun.

Caiff ein partneriaeth â diwydiant ei rhoi ar waith hefyd drwy'r **Rhwydwaith Clystyrau Bwyd a Diod**, y bwriedir iddo leihau arwahanrwydd busnesau ynghyd ag eraill sy'n gweithredu yn y sector, a chysylltu pawb â'i gilydd er mwyn meithrin arloesedd, hybu arfer gorau, goresgyn rhwystrau o ran gwybodaeth ac annog yr arfer o rannu adnoddau.

Ar hyn o bryd mae'r Rhwydwaith Clystyrau yn grwpio busnesau ar sail y Clwstwr Datblygu Diodydd, y Clwb Allforio, Clwstwr Bwyd Môr Cymru, Clwstwr Bwydydd Da Cymru, y Clwstwr Busnes Effaith Uchel a Maeth Cymru.

Bwriad y Cynllun yw dyfnhau'r Rhwydwaith Clystyrau, fel y gwelir trwy'r gwaith o ddatblygu'r Clwb Allforio ymhellach, fel cam pwysig tuag at gynyddu cydnerthedd busnesau a'u gallu yn y cyfnod ar ôl Brexit.

Cynnwys

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ymgysylltu helaeth er mwyn casglu'r dystiolaeth sy'n ofynnol i lywio cwmpas y Cynllun. Mae hynny wedi golygu **cynnwys** cymdeithasau masnach allweddol, grwpiau buddiant, darparwyr y diwydiant ac adrannau

eraill Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a'r camau gweithredu sydd yn y Cynllun yn rhai gwybodus ac yn rhai sy'n mynd i'r afael yn gywir ag anghenion y diwydiant.

Mae gwaith craidd yr ymarfer ymgysylltu wedi'i seilio ar gynnal cyfarfodydd un i un er mwyn hwyluso trafodaeth ynghylch cryfderau a gwendidau'r diwydiant a'r cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n ei wynebu, yn ôl yr elfennau y mae gan y rhanddeiliad fudd ynddynt. Yn ogystal, rydym wedi defnyddio'r cyfarfodydd i adolygu gwaith presennol Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a ffurfiwyd gan Lywodraeth Cymru, a chasglu barn ynghylch y gwaith y mae'n ei wneud yn y sector.

I ategu hyn mae deunydd hyrwyddo wedi'i gyhoeddi a thudalen bwrpasol wedi'i chreu ar wefan Busnes Cymru, a defnyddir cyfryngau cymdeithasol i wahodd ac annog pobl i gyfrannu safbwyntiau a syniadau.

Mae'r ymarfer ymgysylltu wedi cynnwys y trydydd sector yn llawn, a chafwyd trafodaethau â gwahanol grwpiau buddiant a grwpiau cydraddoldeb yn ogystal ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod rhychwant eang o safbwyntiau yn sail i'r Cynllun.

ADRAN 7. CASGLIAD

(Nodwch y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Un o'r prif gyflawniadau dan y cynllun presennol i gynorthwyo'r sector bwyd a diod yng Nghymru, 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', oedd creu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Mae'r Bwrdd wedi rhannu'r cyfrifoldeb am gyflawni camau gweithredu'r cynllun presennol ac wedi parhau i fod yn llais sy'n cynrychioli busnesau bwyd a diod yng Nghymru ac sy'n hybu eu buddiannau.

Mae'r Bwrdd wedi gallu gweithredu'n effeithiol iawn fel ein prif bartner wrth ddatblygu'r Cynllun, diolch i'r ystod o arbenigedd a gwybodaeth o bob rhan o'r sector ynghyd â chenhadaeth ganolog i helpu i ehangu a hyrwyddo bwyd a diod o Gymru ac ychwanegu gwerth gwirioneddol atynt. Mae cydweithio agos wedi sicrhau bod ein gwaith wedi'i seilio yn gyfan gwbl ar wybodaeth, er mwyn lleihau effeithiau nas bwriadwyd a sicrhau bod y Cynllun yn berthnasol ac wedi'i dargedu'n briodol.

Rydym hefyd wedi ceisio cofnodi ystod eang o safbwyntiau a barn trwy ymarfer ymgysylltu helaeth yn ystod 2018, er mwyn casglu'r dystiolaeth a oedd yn ofynnol i ffurfio cwmpas a ffocws y Cynllun. Mae'r ymarfer ymgysylltu hwnnw wedi cynnwys cymdeithasau masnach allweddol, grwpiau buddiant, darparwyr y diwydiant ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn mynd i'r afael yn gywir ag anghenion y diwydiant.

Mae cyfarfodydd un i un a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi hwyluso trafodaeth er mwyn deall yn well gryfderau a gwendidau'r sector yng Nghymru a'r cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n ei wynebu. Mae cynnwys grwpiau o'r trydydd sector wedi bod yn bwysig iawn o safbwynt rhoi gwell dealltwriaeth o'r system fwyd a'r rhychwant ehangach o faterion sy'n gysylltiedig â bwyd a diod.

I ategu ein gwaith ymgysylltu, mae deunydd hyrwyddo wedi'i gyhoeddi a thudalen bwrpasol wedi'i chreu ar wefan Busnes Cymru, mae gwybodaeth yn cael ei rhannu trwy Newyddlen Bwyd a Diod Cymru, a defnyddir cyfryngau cymdeithasol i wahodd ac annog pobl i gyfrannu safbwyntiau a syniadau.

Caiff yr asesiad hwn ei ddatblygu ymhellach, cyn bod unrhyw ymgynghori ffurfiol yn digwydd, trwy ymgysylltu â grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, y sawl sy'n cynrychioli hawliau plant a sefydliadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Diben canolog y Cynllun yw annog twf yn y Sector Sylfaen Bwyd a Diod yng Nghymru, a thrwy hynny gyflawni nodau yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi trwy hybu busnesau yng Nghymru sy'n arloesol, yn effeithlon, yn gystadleuol ac yn broffidiol. Yn y modd hwn bydd y Cynllun yn ceisio gwireddu effeithiau cadarnhaol ar draws y sector er mwyn cyflawni nod ehangach Llywodraeth Cymru, sef cael Cymru decach lle caiff manteision twf economaidd cynhwysol a lefelau gwell o gyfoeth eu teimlo ym mhob rhan o Gymru.

Effaith economaidd fydd prif effaith y Cynllun, gan adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd dan 'Tuag at Dwf Cynaliadwy' a chan gynnwys mesurau i hybu twf cydnerth a chynaliadwy yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru. Bydd y Cynllun yn helpu ein busnesau i addasu a pharatoi ar gyfer yr heriau hirdymor sydd i ddod, a thrwy hynny bydd yn cyfrannu at ddiben y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, sef ceisio sicrhau ffyniant i bawb trwy adeiladu economi ar sylfaen gadarn.

Mae'r Cynllun yn mabwysiadu'r newid agwedd yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi tuag at gynorthwyo'r sectorau sylfaen yn economi Cymru sy'n diwallu anghenion pob dydd cymunedau Cymru. Mae ein sector bwyd a diod yn bwysig am ei fod yn darparu nwyddau a gwasanaethau sy'n hanfodol i ansawdd bywyd a diogelwch pobl yng Nghymru.

Mae'r gadwyn cyflenwi bwyd a diod yn un sylweddol, ac mae'n gyfrifol am un o bob pump o unedau busnes ac am 18% o weithlu Cymru. Gweithgynhyrchu bwyd a diod yw'r ddolen ganolog yn y gadwyn honno, ac mae'n tynnu ein cynhyrchwyr cynradd a busnesau manwerthu a gwasanaethau bwyd ynghyd.

Effaith y sector yw ei botensial i greu cyfleoedd a chyfoeth ar draws pob rhan o'r genedl, gan gynnwys ardaloedd gwledig lle mae'r cynnydd yn nifer y busnesau *artisan* a busnesau bach a chanolig eu maint yn adlewyrchu cryfder arloesi ac entrepreneuriaeth yng Nghymru. Mae prosesu bwyd a diod yn cynnig modd i'r bobl dalentog sy'n gweithio ym maes amaeth yng Nghymru arallgyfeirio.

Gall hybu twf yn y sector fod yn fanteisiol o safbwynt lleihau anghydraddoldeb rhanbarthol, a thrwy hynny bydd yn helpu i gyflawni'r dull seiliedig ar le o greu 'swyddi gwell yn nes adref'. Mae hynny'n cynnwys y posibilrwydd o sicrhau effeithiau cadarnhaol o safbwynt y Gymraeg a'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, trwy helpu i wella cyfleoedd mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy gryfhau economïau lleol.

Mae masnachu mewn marchnadoedd byd-eang, buddsoddiad uniongyrchol o dramor a chysylltiadau â thwristiaeth ar gyfer bwyd a diod o Gymru yn cynnig cyfle pwysig i hyrwyddo ein diwylliant a chodi proffil rhyngwladol Cymru fel cenedl. Gan adeiladu ar safonau uchel ym maes diogelwch bwyd a lles anifeiliaid, gall Cymru fanteisio ar ei rhinweddau gwyrdd a'i thirwedd i greu pwynt gwerthu unigryw yng nghyswllt dilystrwydd a tharddiad cynnyrch. Gall gwaith datblygu brand helpu i feithrin dealltwriaeth o le Cymru yn y byd.

Mae ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau amrywiol yn perthyn yn agos i hunaniaeth genedlaethol Cymru, ac maent yn sylfaen i allu ein cadwyn cyflenwi bwyd i gynhyrchu ac i'r canfyddiad bod bwyd a diod o Gymru yn naturiol ac yn cael eu cynhyrchu yn gynaliadwy. Bydd ffocws y Cynllun ar godi lefelau cynhyrchiant, gwella effeithlonrwydd prosesu a lleihau gwastraff yn helpu i leihau pwysau ar yr adnoddau hyn a gwarchod bioamrywiaeth.

Trwy wneud hynny, bydd y Cynllun yn ceisio integreiddio â'r gwaith o gyflawni polisiau ehangach Llywodraeth Cymru, megis 'Cyflawni ein llwybr carbon isel hyd at 2030' a 'Brexit a'n Tir', yn ogystal â gwella cysylltiadau busnesau â mentrau'r trydydd sector, megis Ymrwymiad Courtauld 2025 a chynlluniau aiddosbarthu bwyd megis Fare Share Cymru.

Bydd integreiddio ehangach hefyd yn cynnwys mesurau yn y Cynllun i ategu strategaeth ordewdra Llywodraeth Cymru, 'Pwysau Iach: Cymru Iach'. Trwy rwydwaith Arloesi Bwyd Cymru, byddwn yn darparu'r cyfarwyddyd technegol a'r cyngor ynghylch prosesu y mae eu hangen ar ein gweithgynhyrchwyr bwyd a diod er mwyn ystyried maeth a deiet wrth greu cynnyrch ac er mwyn ymateb i newidiadau mewn rheoliadau.

Bydd mesurau yn y Cynllun i fynd i'r afael ag argaeledd gweithwyr sydd â'r sgiliau iawn, trwy'r rhaglenni Adduned Sgiliau a Gyrfaoedd Blasus, yn hybu cyfleoedd i fynd i weithio yn y sector a datblygu gyrfa o fewn y sector. Bydd y meini prawf ar gyfer 'Gwaith Teg' a 'Hybu Iechyd, Sgiliau a Dysgu yn y Gweithle' yn helpu i leihau'r rhwystrau i waith gweddus, yn annog amrywiaeth yn y gweithle ac yn hybu mabwysiadu'r Cyflog Byw.

Yn y modd hwn bydd y Cynllun yn hybu'n anuniongyrchol safonau ar gyfer ymddygiad busnesau yn yr hirdymor, a fydd yn meithrin cyfle cynhwysol ac felly'n helpu i sicrhau effeithiau cadarnhaol ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd yr effaith hon yn cael ei chefnogi trwy'r Rhwydwaith Arloesi Bwyd, trwy helpu busnesau i ddiwallu galw mwyfwy soffistigedig a phersonol ymhlith defnyddwyr, sy'n cynnwys anghenion deietegol ac anoddefiadau bwyd, gan ddiwallu angen cynyddol i fwyd a diod fodloni dewis pobl o ran ffordd o fyw.

Roedd ein hymarfer ymgysylltu a'n gwaith casglu tystiolaeth i lywio ffocws y Cynllun yn fodd i grwpio materion a chamau gweithredu ar sail tair prif thema y bwriedir iddynt hybu'r broses o drawsnewid y sector:

- Datblygu ein busnesau
- Hyrwyddo Cymru, y Genedl Fwyd
- Bod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas

Caiff y themâu hyn a'r mentrau sy'n rhan ohonynt eu disgrifio'n llawn yn yr ymgynghoriad.

7.2 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn agos ag amcanion y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, trwy ddarparu cynllun galluogi ar gyfer y Sector Sylfaen Bwyd a Diod yng Nghymru. Trwy wneud hynny, mae'r Cynllun yn ategu'n uniongyrchol dair o'r pedair thema yn y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb ac yn cyflawni camau gweithredu sy'n cyfrannu at chwech o'r deuddeg amcan llesiant.

Trwy gynnwys camau gweithredu sy'n gofyn am weithio ar draws adrannau ac am ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid yn y sector bwyd a diod, bydd y Cynllun yn cefnogi agenda sy'n mynd y tu hwnt i ffocws cyfyng ar ehangu gweithgynhyrchu yn unig. Mae adran 1 yr asesiad hwn yn disgrifio ymhellach sut y bydd y Cynllun yn integreiddio â hierarchaeth strategaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu sut y mae'r Cynllun yn cyfrannu at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Trwy ymgysylltu â chydweithwyr a thimau ar draws Llywodraeth Cymru i drafod yr ystod lawn o faterion sy'n ymwneud â'r sector bwyd a diod, rydym wedi ceisio lliniaru'r risg y ceir effeithiau nas bwriadwyd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r asesiad hwn wrth i'r Cynllun gael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori'n ffurfiol yn ei gylch, a fydd yn gyfle i ymgysylltu ymhellach â safbwyntiau a syniadau o bob rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd a diod.

7.3 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Caiff ystod o dargedau a chyfres o ddangosyddion perfformiad a ddatblygir eu defnyddio i ddarparu darlun mwy cyflawn o gyflwr y diwydiant a mesur llwyddiant mewn modd mwy cytbwys. Cafodd y rhain eu nodi a'u cytuno trwy ymgysylltu â'n Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a thrwy gomisiynu ymgynghorwyr, a chânt eu disgrifio'n fanylach yn Adran 4 yr asesiad hwn.

Bydd y targedau a'r dangosyddion hyn yn sail i ddeall effaith ymyriadau yn y Cynllun drwy gydol oes y Cynllun, a byddant yn hwyluso gwaith adolygu a gwerthuso rheolaidd.

ADRAN 8. DATGANIAD

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog â Chyfrifoldeb / Dirprwy Gyfarwyddwr:.....**David Lloyd-Thomas**

Adran: **Yr Is-adran Fwyd (Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol)**

Dyddiad: **28 Ebrill 2019**


A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* ac yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu wedi'i gynnwys hefyd yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae rheidrwydd statudol arnom hefyd i ystyried yn llawn beth yw effaith ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hynny'n golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisiau yn effeithio ar y Gymraeg a'r sawl sy'n ei siarad.

Mae gan y strategaeth *Cymraeg 2050* dair thema:



Mae'r penawdau dan bob thema yn amlinellu rhychwant y gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith. Yn gyffredinol, os oes gan eich polisi y potensial i effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw fodd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar yr iaith Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (cwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@gov.wales):

04/03/2019

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?*

Trwy annog twf yn y Sector Sylfaen Bwyd a Diod ar draws Cymru, bydd y Cynllun yn helpu i gyflawni dull gweithredu sy'n seiliedig ar le, a thrwy hynny yn hybu'r nod o greu economïau rhanbarthol cynaliadwy. Yn y modd hwn bydd y Cynllun yn cyfrannu at yr amcan i greu 'swyddi gwell yn nes adref' ac yn helpu i wella cyfleoedd mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu i greu brand eiconig ar gyfer bwyd a diod o Gymru dan y prosiect Gwerthoedd Brand Cynaliadwy, a fydd yn sail i'r Brand Cymru newydd. Bydd defnyddio ein hunaniaeth genedlaethol i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru yn cynnwys, yn anuniongyrchol, hyrwyddo ein hiaith gartref, yn y DU ac ar draws marchnadoedd byd-eang. Trwy ddefnyddio ein diwylliant i helpu i wahaniaethu cynnyrch o Gymru yn glir, a thrwy gynnal Safonau'r Gymraeg yn ein holl waith marchnata a hyrwyddo, byddwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyflwr y Gymraeg.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hynny er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg:

Mae bwriad y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i gynorthwyo gwaith prosesu bwyd a diod fel Sector Sylfaen wedi'i seilio i raddau helaeth ar bwysigrwydd y ffaith bod y diwydiant wedi'i wreiddio mewn cymunedau Cymreig. Caiff effaith bosibl y sector o safbwynt cynhyrchu nwyddau sy'n hollbwysig i lesiant a diogelwch cymunedau Cymreig ei hatgyfnerthu gan ddsbarthiad daearyddol ein busnesau bwyd a diod ledled Cymru.

Mae gan y sector bresenoldeb mewn ardaloedd lleol a gwledig yng Nghymru, sy'n cynnwys cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg lle mae oddeutu 40% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Gall ehangu'r sector helpu i wella cyfleoedd yn lleol i siaradwyr Cymraeg ddod o hyd i waith yn eu cymunedau eu hunain. Trwy wneud hynny, byddwn yn hybu canlyniadau teg trwy helpu i wella rhagolygon economaidd yn deg rhwng cymunedau a rhanbarthau Cymraeg eu hiaith ledled Cymru.

Caiff hynny ei gryfhau gan y cysylltiadau uniongyrchol sy'n bodoli rhwng gweithgynhyrchu bwyd a diod ac amaethyddiaeth yng Nghymru, sy'n gyflogwr allweddol yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Bydd y Cynllun yn cynnwys mesurau i gryfhau cadwyni cyflenwi trwy feithrin cysylltiadau agosach rhwng ein cynhyrchwyr amaethyddol a phroseswyr bwyd a diod yng Nghymru. Bydd y Cynllun hefyd yn cefnogi'r cynigion a amlinellir yn 'Brexit a'n Tir' i reolwyr tir gryfhau eu hincwm trwy arallgyfeirio.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ardaloedd Gwledig eisoes wedi esbonio ein cymorth i fusnesau micro a busnesau bach a chanolig eu maint, sy'n rhan annatod o economïau lleol a gwledig.

Mae ein gwaith ymgysylltu cychwynnol wedi dangos bod arloesi yn hollbwysig o safbwynt dechrau busnesau bwyd a diod llwyddiannus yng Nghymru a sicrhau eu bod yn goroesi. Mae ein Rhwydwaith Arloesi Bwyd yn ymestyn ar draws Cymru ac mae'n cynnwys cymorth mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith trwy Ganolfan Bwyd Cymru yn Horeb, Ceredigion a'r Ganolfan Technoleg Bwyd yng Ngholeg Menai, Llangefni, Ynys Môn. Bydd ein canolfannau bwyd yn meithrin entrepreneuriaeth ac yn mynd ati'n uniongyrchol i annog pobl i sefydlu busnesau newydd, sy'n bwysig.

Bydd y Cynllun yn dyfnhau ein hymrwymiad i'r Canolfannau Bwyd gan eu bod yn darparu gwasanaethau sy'n hanfodol i gydnerthedd busnesau. Trwy feithrin busnesau newydd a hybu entrepreneuriaeth yn y sector byddwn yn cyfrannu at gynaliadwyedd ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Mae ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant a chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd ein gwaith marchnata ar gyfer busnesau bwyd a diod yng Nghymru. Mewn marchnad hynod gystadleuol, mae cymdeithasau masnach a busnesau'n benodol o'r farn bod ein rhaglenni hyrwyddo er mwyn helpu i gyrraedd marchnadoedd a chreu cysylltiadau yn ardderchog.

Mae Brexit yn golygu bod hynny'n fwy perthnasol fyth o safbwynt rhoi pwysau ychwanegol posibl ar gadw marchnadoedd yn yr UE, agor marchnadoedd byd-eang newydd i allforio iddynt, a datblygu ein cyfran o'r farchnad yn y DU.

Er mwyn ymateb i'r her hon, rydym eisoes wedi dechrau archwilio'r potensial i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru trwy ein hunaniaeth genedlaethol. Mae ein hymchwil sy'n dwyn y teitl 'Gwerth Cymreictod' yn dangos bod defnyddwyr yn y DU yn disgrifio brandiau amlycaf Cymru fel rhai sy'n 'teimlo'n naturiol' (59%) ac sy'n 'cynrychioli ansawdd campus' (75%) ac fel rhai y maent o'r farn eu bod yn 'blasu'n wych' (73%)⁴.

Nododd ymgynghoriad diweddar â busnesau bwyd a diod fod defnyddio'r Gymraeg a brand Cymraeg wedi sicrhau mantais fasnachol bendant trwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r brand a'i wahaniaethu'n glir, trwy atgyfnerthu delwedd leol ac ymdeimlad o safon, a thrwy helpu i bwysleisio dilysrwydd a tharddiad y cynnyrch.⁵

Bydd ein prosiect Gwerthoedd Brand Cynaliadwy yn adeiladu ar hyn trwy dynnu cryfderau ein diwylliant a tharddiad ein cynnyrch, gan gynnwys ein hiaith, ynghyd er mwyn helpu i wahaniaethu ein cynnyrch ac ychwanegu gwerth ato. Mae ein hiaith yn un o'n nodweddion unigryw, mae'n ganolog i'n hunaniaeth genedlaethol ac mae'n ein gwneud yn wahanol i wledydd eraill y DU, sy'n bwysig. Yn y modd hwn byddwn yn helpu i godi statws ein hiaith ac ymwybyddiaeth ohoni trwy hyrwyddo cynnyrch o Gymru yn y DU ac mewn marchnadoedd rhwngwladol.

Wth ddatblygu'r Cynllun ymhellach, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â gwaith parhaus i adnabod ffyrdd y gallwn gefnogi'r ymrwymiad yn strategaeth y Gymraeg i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gweithle.

Bydd hynny'n cynnwys parhau i ymgysylltu â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a Cymraeg 2050 er mwyn archwilio sut y gall y Cynllun asio â mentrau eraill y bwriedir iddynt adfywio cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, megis Cronfa Arloesi Arfor⁶ a'r rhaglen Cymraeg Byd Busnes⁷.

⁴ **Gwerth Cymreictod: Awydd y Siopwr am Gynnyrch Cymreig** – Bwyd a Diod Cymru; comisiynydd trwy Category Insight UK Ltd.

⁵ **Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru: Adroddiad ymchwil**, Comisiynydd y Gymraeg, Rhagfyr 2014.

⁶ [Bydd Cronfa Arloesi Arfor](#)

⁷ [Cymraeg Byd Busnes](#)